**Hannah Blythyn AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Deputy Minister for Housing & Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-HB-5452-19

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

5 Rhagfyr 2019

Annwyl John,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eich gwaith gwerthfawr wrth ystyried darparu budd-daliadau lles yng Nghymru. Mae ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd iddo wedi llunio adroddiad ac argymhellion defnyddiol.

Rwy'n cydnabod bod hwn yn faes cymhleth iawn sy'n hanfodol bwysig ledled Cymru, ac yn bwysicaf oll i'n hunigolion, teuluoedd a chymunedau sydd fwyaf agored i niwed. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, *Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru* ym mis Ionawr 2020. Mae adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfraniad pwysig wrth helpu i lunio sut bydd y gwaith o asesu'r achos dros ddatganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau yn datblygu.

Mae'r tabl atodedig yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad. Rwyf wedi ymrwymo i roi diweddariadau pellach i'r Pwyllgor mewn perthynas â rhai o'r argymhellion, a byddaf yn gwneud hyn wrth i wybodaeth ddod i law, neu wrth i'r gwaith ddatblygu.

Yn gywir,

Hannah Blythyn

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Lleol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w Cyflawni'n Well*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu "system fudd-daliadau Gymreig" gydlynol ac integredig ar gyfer yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu set o egwyddorion sy'n sail i'w dyluniad a'r dull o'u cyflwyno. Dylai'r egwyddorion hyn gael eu cydgynhyrchu gyda phobl sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad trawslywodraethol o'i rhaglenni a'i gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gweithio ym mhob adran o'r llywodraeth i ddatblygu opsiynau er mwyn lleihau costau i deuluoedd a hybu incwm, gan ganolbwyntio ar elfennau lle y gall Llywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth. Bydd hyn yn cynnwys archwilio sut y gellir symleiddio mynediad at fudd-daliadau arian parod a gwasanaethau cymorth. Bydd lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn helpu i lunio'r adolygiad, gan gynnwys pa gamau gweithredu fydd yn helpu i wella eu sefyllfa o ddydd i ddydd, yn eu barn nhw.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrthi'n archwilio achos dros ddatganoli gweinyddiaeth agweddau penodol ar y system fudd-daliadau. Fel rhan o'i gwaith interim, mae'r Ganolfan wedi nodi, fel man cychwyn, y dylid nodi'r amcanion a ddymunir i lywio penderfyniadau am yr hyn y gellid bod angen ei newid, sy'n cyd-fynd â'r argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau amlinellu rhai o egwyddorion craidd sy'n cynnwys tosturi, tegwch, urddas a dealltwriaeth, gyda'r nod o fabwysiadu dull mwy dyngar sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Byddwn yn adeiladu ar y rhain ymhellach ac yn eu datblygu drwy ein gwaith ymgysylltu ehangach, fel rhan o'n hadolygiad o raglenni sy'n mynd i'r afael â thlodi.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion yr holl fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y mae'n gyfrifol amdanynt a'r rhai a ddarperir ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys manylion costau, nifer y bobl sy'n gymwys a'r nifer sy'n eu hawlio.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd rydym yn cyhoeddi ar dudalennau gwe'r Llywodraeth y meini prawf cymhwysedd ar gyfer holl sgil-fudd-daliadau a sgil-gynlluniau Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/yr-amodau-ar-gyfer-derbyn-sgil-fudd-daliadau-sgil-gynlluniau-eraill

Byddwn yn sicrhau bod ein datganiadau am gynnydd ar gyfer ein budd-daliadau a chynlluniau sy'n seiliedig ar brawf modd bob amser yn rhoi eglurder ar wariant, a'r nifer sy'n eu hawlio lle y bo'n ymarferol. Rydym eisoes yn darparu amcangyfrifon o gymhwysedd i gael budd-daliadau lle y mae hyn yn ymarferol, er enghraifft ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim. Gall amcangyfrif lefelau cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau fod yn dasg gostus a chymhleth. Byddwn yn ystyried dichonoldeb darparu amcangyfrifon cymhwysedd ar gyfer pob un o fudd-daliadau a chynlluniau Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n hadroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2019, a gyhoeddir cyn, byddwn yn cynnwys ffeithlen fel atodiad a fydd yn rhoi manylion y cyfraniadau trawslywodraethol tuag at fynd i'r afael â thlodi a chanlyniadau o ran nifer y buddiolwyr.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gellir defnyddio’r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod y cyfnod pan fo pobl yn aros am daliad Credyd Cynhwysol cychwynnol, a bod y meini prawf cymhwysedd a’r broses ymgeisio yn cael eu newid i adlewyrchu hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ymgeisio yn gyflym er mwyn sicrhau bod taliadau’n cael eu derbyn yn amserol i osgoi caledi ariannol a bod digon o arian ar gael i fodloni pob hawliad.

**Ymateb: Derbyn**

Gall y Gronfa Cymorth Dewisol gael ei defnyddio yn ystod y cyfnod pan fo pobl yn aros am daliad Credyd Cynhwysol cychwynnol. Ar hyn o bryd, mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yn darparu taliadau arian parod brys i bobl sy’n profi caledi mawr, gan gynnwys hawlwyr Credyd Cynhwysol sy’n profi caledi yn ystod y cyfnod asesu cychwynnol. Nid oes angen newid y meini prawf cymhwystra na’r broses ymgeisio.

Mae newidiadau diweddar wedi’u gwneud i’r broses ymgeisio sydd wedi arwain at amser byrrach i wneud cais, llai o hawliadau wedi'u gadael, a mwy o geisiadau llwyddiannus gyda cheisiadau ar-lein yn cymryd llai na phum munud ar gyfartaledd.

Mae'r broses ymgeisio yn cefnogi ceisiadau ar-lein a dros y ffôn, gyda thaliadau yn cyrraedd pobl mewn angen o fewn 24 awr. Talwyd o leiaf 81% o'r taliadau hyn o fewn 12 awr.

Byddwn yn parhau i fonitro'r galw am gymorth gan y Gronfa Cymorth Dewisol yn agos, ac yn ystyried sut y gall y gronfa gyflawni a diwallu anghenion pobl sy’n

wynebu caledi mawr, gan gynnwys y rheini sy’n aros am eu taliadau Credyd Cynhwysol cychwynnol.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithredu i wella’r nifer sy’n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, yn rhai wedi’u datganoli a heb eu datganoli. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus eang helaeth o leiaf. Credwn hefyd y dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor ynghylch budd-daliadau sy’n anelu at sicrhau bod pobl yn hawlio’r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni’r ddyletswydd hon.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau lles datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n barhaus â Llywodraeth y DU, drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn sicrhau ei fod yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli. Rydym yn cydnabod y canlyniadau cadarnhaol i bobl ac i economi Cymru a sicrheir drwy fentrau sy'n galluogi aelwydydd ac unigolion i gael eu hawl cyfreithiol i fudd-daliadau lles.

Yn ddiweddar rydym wedi ymgymryd â phroses gaffael drylwyr a bydd y Gronfa Cyngor Strategol newydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2020. Byddwn yn monitro'r gwasanaethau a ddarperir ac yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Yn ystod 2018-2019 llwyddodd darparwyr cyngor a ariennir drwy grant Llywodraeth Cymru i helpu pobl i hawlio cyfanswm o £55m mewn incwm budd-daliadau lles ychwanegol. Mae ein dull yn seiliedig ar yr ymgyrchoedd hawlio budd-daliadau hynod effeithiol a llwyddiannus, sy'n rhoi gwybodaeth hygyrch i bobl sy'n codi eu hymwybyddiaeth o fudd-daliadau lles, ac yn eu galluogi i wneud dewis hyddysg ynghylch gwneud cais. Byddwn hefyd yn sicrhau bod lefelau priodol o adnoddau ar gael o fewn cymunedau lleol fel y gall pobl, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed, gael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gwblhau'r holl brosesau sy'n ofynnol er mwyn gwneud cais llwyddiannus am fudd-daliad.

Byddai’n rhaid inni ystyried yn ofalus ynghylch cynnig rôl benodol i awdurdodau lleol, gan gynnwys o ystyried pwerau datganoledig, a’u swyddogaethau statudol cyfredol. Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes naill ai'n darparu cyngor ar fudd-daliadau lles yn uniongyrchol neu'n ei ariannu drwy ddulliau a gynllunnir yn lleol. Er enghraifft, gellir darparu gwasanaethau cyngor ar fudd-daliadau gan awdurdodau lleol drwy ddyletswyddau statudol presennol, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Gall y rhain gynnwys gwasanaethau sy'n targedu pobl yn y

boblogaeth leol sydd fwyaf anghenus, megis y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ymyrryd mewn argyfwng.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig gydag awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod y Gronfa Gynghori Sengl yn parhau i fod yn ddull effeithiol o gefnogi unigolion a theuluoedd i hawlio eu budd-daliadau yn llawn.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar y cyd â Llywodraeth y DU i archwilio'r mecanweithiau gorau i wella llais Cymru ym mhenderfyniadau Llywodraeth y DU ynglŷn â pholisi nawdd cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y trafodaethau hyn ar ein cyfer ymhen chwe mis.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan Lywodraeth Cymru gydberthnasau gwaith da ar lefel swyddogol â'r Adran Gwaith a Phensiynau, wedi'u hategu gan y concordat y cytunwyd arno yn ddiweddar. Byddwn yn ceisio ailsefydlu cyswllt Gweinidogol rheolaidd yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU i ystyried sut y gallwn gryfhau cydberthnasau dwyochrog ymhellach.

Ers i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw cymheiriaid yn llywodraethau eraill y DU at yr argymhelliad hwn gyda'r nod o'i archwilio ymhellach fel rhan o ffrwd waith yr Adolygiad o Gydberthnasau Rhynglywodraethol ar y cyd a gomisiynwyd yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym mis Mawrth 2018. Rydym yn parhau i wthio am gynnydd ar yr Adolygiad hwn ac yn disgwyl i Lywodraeth newydd y DU wneud hyn yn brif flaenoriaeth. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r Cynulliad.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dull Pecyn Cymorth Bywoliaethau Cynaliadwy wrth ddarparu'r holl fudd-daliadau datganoledig a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cefnogi'r defnydd ehangach o ddull pecyn Bywoliaethau Cynaliadwy Oxfam sy'n cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Rydym yn cymeradwyo cysyniad y dull cyfranogol ar sail y gydnabyddiaeth bod gan bawb alluoedd ac asedau y gellir eu datblygu i'w helpu i wella eu bywydau. Mae angen i ni ennill dealltwriaeth llawer

gwell o'r ffordd mae sefydliadau partner yn ymgorffori'r dull hwn ar hyn o bryd er mwyn datblygu ein dull ar gyfer ehangu hyn, a hyrwyddo'r defnydd ohono ymhellach. Byddwn yn ceisio cyngor gan Oxfam ar y ffordd orau o ymgorffori'r dull hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Caiff unrhyw gost ychwanegol ei thalu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb o gynyddu’r trothwy ar gyfer prydau ysgol am ddim i £14,000. Dylid ei chynnal mewn modd amserol fel bod y trothwy diwygiedig ar waith ar gyfer dechrau tymor ysgol 2020/21 os yw’r cynnydd yn ddichonadwy yn ariannol.

**Ymateb: Eisoes wedi’i gwblhau**

Ystyriwyd cyflwyno trothwy o £14,000 cyn cyflwyno’r trothwy newydd fis Ebrill. Amcangyfrifwyd, unwaith y byddai Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, y byddai trothwy incwm net a enillwyd o £14,000 yn dyblu nifer y cohort cymwys i gael prydau ysgol am ddim (ac felly’r costau blynyddol) o gymharu â throthwy o £7,400. Nid yw hyn yn ystyried costau ychwanegol amddiffyn wrth bontio a’r costau ehangach ar gyllidebau eraill, fel cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion.

Mae'r Pwyllgor wedi argymell, os bydd trothwy uwch i'w weld yn hyfyw, y dylid ei roi ar waith yn barod ar gyfer dechrau tymor yr ysgol 2020/21. Ar wahân i'r costau, mae ystyriaethau eraill a fyddai'n ein hatal rhag cyflwyno trothwy diwygiedig erbyn mis Medi 2020. Er enghraifft, yn ogystal â fforddiadwyedd, mae ystyriaethau pwysig ynghylch ymgynghoriad cyhoeddus ac amserlennu deddfwriaethol yn gysylltiedig â chyflwyno trothwy uwch a byddai hefyd angen ymgorffori newidiadau i'r system gyfrifiadurol ar gyfer cadarnhau pwy sy'n gymwys (y mae Adran Addysg y DU yn berchen arni ond caiff ei defnyddio gan awdurdodau lleol yng Nghymru i brosesu ceisiadau am brydau ysgol am ddim).

Mae’n siomedig iawn bod Llywodraeth y DU wedi methu gwneud yn iawn ar ran pobl Cymru, a darparu adnoddau ychwanegol i reoli effaith ei hagenda Diwygio Lles ar brydau ysgol am ddim. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £12 miliwn yn ychwanegol rhwng 2018-19 a 2019-20 i helpu Awdurdodau Lleol i dalu’r costau yn sgil y cynnydd a amcangyfrifir yn nifer y plant cymwys am brydau ysgol am ddim a’r cynnig o fesurau amddiffyn wrth bontio.

Mae ein rhaglen o amddiffyn wrth bontio yn sicrhau y bydd y newid i feini prawf cymhwysedd prydau ysgol am ddim a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019 yn amharu cyn lleied â phosibl ar deuluoedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd cyfanswm nifer y plant sy'n defnyddio'r rhaglen amddiffyn wrth bontio mewn unrhyw flwyddyn yn ystod cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ddegau o filoedd. Nawr bod y trothwy ar waith, caiff y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am fod eu teuluoedd yn cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol, neu unrhyw

hawlwyr newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ystod cyflwyno Credyd Cynhwysol ar yr un sail, eu hamddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim tra bod Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, hyd yn oed os bydd eu cymhwysedd yn newid. Unwaith y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd unrhyw hawlwyr presennol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach (am eu bod yn ennill yn uwch na'r trothwy) yn parhau i gael eu hamddiffyn tan ddiwedd cyfnod addysg cyfredol y disgybl (er enghraifft, nes ei fod yn gorffen y cyfnod cynradd neu'r cyfnod uwchradd).

Dylid nodi bod y meini prawf i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol iawn i rai Cymru, hyd yn oed cyn cyflwyno'r trothwyon. Mabwysiadwyd trothwy o £14,000 yng Ngogledd Iwerddon gan amcangyfrif y byddai hynny yn cael effaith mor agos i niwtral â phosib. Yr un yw'r bwriad gyda'n trothwy ni. Hefyd nid yw Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno rhaglen amddiffyn wrth bontio, yn wahanol i ni yng Nghymru.

Mae ein gwaith dadansoddi yn seiliedig ar y modelau a'r data gorau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch yr amcangyfrifon hyn, yn sgil ffactorau fel newidiadau ymddygiad, er enghraifft. Ar ben hynny, bydd rhagolygon economaidd a'r data sylfaenol a ddefnyddir yn ein model ar gyfer ein gwaith dadansoddi yn parhau i gael eu diweddaru, gan effeithio ar ein hamcangyfrifon.

Gan gofio'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i adolygu'r terfyn ar enillion o fewn 12 mis i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn yn 2023.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Rydym, fodd bynnag, wedi ymrwymo i adolygu'r trothwy o fewn 12 mis i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2023, ac fe fydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hystyried bryd hynny.

### Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r diffiniad o ofal gan berthynas gael ei ehangu i gynnwys aelodau'r teulu ac eraill sydd â chysylltiad agos â'r teulu ond sy'n bobl wahanol i'r rhieni ac sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc mewn rhinwedd anffurfiol, llawn-amser. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wneir gan ofal gan berthynas ac rydym wedi cymryd camau o fewn pwerau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai sy'n darparu gofal gan berthynas. Er enghraifft, mae ein Cynnig Gofal Plant ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau lle maent yn bodloni'r meini prawf enillion ac yn gofalu am blentyn sydd o'r oedran cywir i gael y Cynnig. Drwy hyn, cynigir cymorth i ofalwyr sy'n berthnasau sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am blentyn, neu lysblentyn, lle nad nhw yw'r rhiant, er enghraifft, pan nad oes gan y plentyn rieni neu sydd â rhieni na allant ofalu am y plentyn, neu ei bod yn debygol y byddai'r plentyn yn cael gofal gan awdurdod lleol, fel arall, oherwydd pryderon mewn perthynas â lles y plentyn.

Rydym yn deall y gall gofal gan berthynas olygu ystod o drefniadau â statysau cyfreithiol gwahanol, megis gofal maeth gan berthynas, gorchmynion gwarchodaeth arbennig, maethu preifat, a threfniadau anffurfiol a wneir gyda pherthnasau agos o fewn teuluoedd.  Bydd yr help a'r cymorth y mae gan y gofalwyr hyn sy'n berthnasau hawl iddynt yn dibynnu ar y math o drefniant.  Er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl gymorth sydd ar gael yn hygyrch, mae Plant yng Nghymru yn cydweithio â ni i ddiweddaru ein canllaw gofal gan berthynas, sy'n helpu i egluro'r statysau cyfreithiol a'r hawliadau am gymorth amrywiol i ofalwyr sy'n berthnasau. Bydd canllaw ar-lein newydd yn 2020.

Byddwn yn gofyn i Lywodraeth nesaf y DU, fel mater o frys, i adolygu'r gydnabyddiaeth o ofal anffurfiol, llawn amser gan berthnasau o ran yr holl fudd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli, ac i roi meini prawf budd-daliadau, sy'n fwy tosturiol a theg, ar waith i roi mwy o gymorth i ofalwyr sy'n berthnasau o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim, am ei fod yn cyfeirio at gymhwysedd i gael budd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli.

### Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio am drefniadau hyblyg ar gyfer talu Credyd Cynhwysol fel y gall pobl yng Nghymru ddewis: cael taliadau mwy mynych, taliadau uniongyrchol i'r landlord, a rhannu taliadau rhwng cyplau. Credwn y dylid bwrw ymlaen â hyn ar frys, a byddem yn gofyn am ddiweddariad o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad ar y trafodaethau a'r broses o roi hyblygrwydd talu ar waith.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn ceisio archwilio ymarferoldeb hyn ymhellach gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, er mwyn pennu sut y gallai trefniadau hyblyg ar gyfer talu Credyd Cynhwysol gael eu cynnig yn gyffredinol ledled Cymru. Byddwn hefyd yn ceisio deall y fframwaith cyfreithiol a fyddai'n sail i hynny ac asesu unrhyw gostau gweinyddol a fyddai'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.

Rhoddir ystyriaeth i'r argymhelliad hwn yng ngoleuni profiad ehangach, yn enwedig o ystyried y profiad yn yr Alban. Mae Deddf yr Alban 2016 wedi galluogi Gweinidogion yr Alban i gyflwyno hyblygrwydd penodol mewn perthynas â thalu Credyd Cynhwysol yn yr Alban. Gyda'i gilydd, gelwir y rhain yn Hyblygrwydd Credyd Cynhwysol. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am weinyddu'r gwaith o dalu a dyrannu Credyd Cynhwysol o hyd.  Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd yn galluogi Llywodraeth yr Alban i fynegi barn am y ffordd y caiff rhai o'r trefniadau talu ar gyfer Credyd Cynhwysol eu gweinyddu yn yr Alban, er nad yw'n rheoli'r broses dalu wirioneddol. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban amrywio amlder y taliad; talu'r costau tai perthnasol yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'w landlord; a phenderfynu ar y meini prawf pan ellir gwneud taliad a rennir i hawlwyr ar y cyd.

Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dweud wrthym fod 106,170 o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru a bod 98,080 (92%) yn cael taliad Credyd Cynhwysol. O'r aelwydydd hyn sy'n cael taliad:

- roedd 2,990 (3%) o aelwydydd yn cael taliad mwy mynych;
- roedd gan 60,470 (62%) hawl i gael cymorth tai, gyda 14,030 (23%) wedi trefnu i'r taliad hwn fynd i'w landlord drwy Drefniant Talu Amgen

Mae Llywodraeth Cymru am weld holl hawlwyr Credyd Cynhwysol yn cael cynnig mwy hyddysg o ran amlder y taliad, p'un a yw costau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord a thaliadau a rennir rhwng cyplau. Mae'n glir ar hyn o bryd bod yr arfer o ddefnyddio Trefniadau Talu Amgen (APA) yn anghyson ledled Cymru. Byddwn yn ceisio archwilio'r dichonoldeb ymhellach gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU er mwyn sefydlu sut y gellid cynnig hyblygrwydd taliad Credyd Cynhwysol yn fwy cyffredinol ledled Cymru, i ddeall beth fyddai'r fframwaith cyfreithiol tanategol ar gyfer hyn, ac i asesu unrhyw gostau gweinyddol yr eir iddynt ac a roddir ar Lywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw gostau ar gyfer cam presennol y gwaith archwilio hwn yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol. Yn sgil cwblhau’r gwaith archwilio presennol hwn, bydd angen cynnal gwaith cwmpasu pellach, a fydd yn cynnwys asesiad o unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhellion 10-17**

Nid ydym mewn sefyllfa i allu ymateb yn llawn ar hyn o bryd i argymhellion 10-17. Rydym yn aros i waith a gomisiynwyd gennym gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gael ei gwblhau, er mwyn inni edrych ar yr achos dros ddatganoli gweinyddiaeth agweddau ar y system fudd-daliadau. Disgwylir i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gyhoeddi eu canfyddiadau ym mis Ionawr 2020.

O ystyried archwiliad parhaus Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ni fyddem, ar y cam hwn, yn achub y blaen ar ystyriaethau drwy ddiystyru unrhyw fudd-daliadau penodol o fewn neu tu hwnt i'r cwmpas. Byddwn yn ystyried argymhellion y Pwyllgor yn llawn ar ôl inni gael y canfyddiadau hynny, gan adrodd yn ôl i’r Pwyllgor yn briodol.

Rydym yn ddiolchgar iawn am y dystiolaeth a’r ystyriaeth a roddir gan y Pwyllgor, mewn perthynas ag argymhellion 10-17. A bydd hynny o ddefnydd wrth fynd â’r gwaith archwilio rhagddo.

**Goblygiadau Ariannol** – dim